# Asesu, dadansoddi a gwerthuso risgiau

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud ag asesu, dadansoddi a gwerthuso risgiau yn unol â pholisïau a gweithdrefnau rheoli risg cymeradwy. Yn rhan o'r asesiad, mae'r dadansoddiad risg yn cynnwys dulliau adnabod, disgrifiadau ac amcangyfrif, a chynnal gwerthusiad wedi hynny. Mae'n briodol ar gyfer gweithwyr proffesiynol ym maes rheoli risg a gweithwyr proffesiynol eraill sy'n gyfrifol am asesu, dadansoddi a gwerthuso risgiau.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. monitro'r amgylchedd gweithredol drwy ddefnyddio data priodol a nodi risgiau mewnol a rhai y tu allan i'ch sefydliad
2. asesu risgiau a nodi eu heffaith bosibl a chyd-ddibyniaethau, gan gadw at bolisïau a gweithdrefnau rheoli risg y cytunwyd arnynt
3. cynorthwyo staff mewnol i nodi risgiau sy'n berthnasol i'w rolau a'u cyfrifoldebau
4. ystyried canfyddiadau, ymddygiadau a thueddiadau o ran risg wrth asesu, dadansoddi a gwerthuso risgiau
5. defnyddio technegau priodol o adnabod a dadansoddi risg yn unol â pholisïau a gweithdrefnau rheoli risg y cytunwyd arnynt
6. gwerthuso'r risgiau yn erbyn meini prawf sefydledig i nodi eu harwyddocâd
7. gwneud yn siŵr bod risgiau a chyfrifoldebau yn cael eu dyrannu yn unol â gweithdrefnau’r sefydliad
8. sefydlu rheolaethau priodol ar gyfer risgiau a nodwyd a’r rhai sy'n dod i'r amlwg
9. gwneud yn siŵr bod asesiadau risg yn ystyried ffactorau eraill o ran materion cyfreithiol, rheoleiddiol a chydymffurfio
10. gwneud yn siŵr bod asesu risg yn ystyried ffactorau eraill o ran moeseg a chyfrifoldeb cymdeithasol
11. creu cofrestr risg a’i defnyddio yn unol â pholisïau a gweithdrefnau rheoli risg
12. gwerthuso'r gofrestr risg a'i hadolygu'n rheolaidd, gan nodi gwelliannau a meysydd lle ceir diffyg cydymffurfio

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. nodau, amcanion a chynlluniau busnes eich sefydliad
2. strwythur eich sefydliad a'i gynhyrchion a'i wasanaethau
3. diwylliant eich sefydliad a chwmpas y risgiau sy'n gysylltiedig ag ef
4. y gofynion a'r safonau cyfreithiol a rheoliadol cyfredol sy'n berthnasol i reoli risg
5. y technegau nodi a dadansoddi risg sy'n berthnasol i'ch sefydliad a'ch sector yn y diwydiant
6. egwyddorion llywodraethu da, cyfrifoldeb amgylcheddol a chymdeithasol, ac arferion moesegol sy'n berthnasol i reoli risg
7. cysyniadau rheoli risg ac ymwybyddiaeth o risg
8. yr amgylchedd busnes a'r farchnad y mae eich sefydliad yn gweithredu ynddynt
9. polisïau a gweithdrefnau eich sefydliad ar gyfer rheoli risg a dogfennaeth ategol
10. y mathau o wybodaeth am risg a'u ffynonellau
11. sut i nodi, categoreiddio, disgrifio, gwerthuso a blaenoriaethu risgiau
12. dulliau dadansoddi a gwerthuso risg
13. sut i nodi cyd-ddibyniaethau
14. y canfyddiadau, yr ymddygiadau a'r tueddiadau o ran risg a sut maent yn effeithio ar reoli risg
15. dulliau modelu ystadegol a dadansoddi achosion sylfaenol
16. y rheolaethau priodol ar gyfer gwahanol fathau o risgiau
17. y mathau o feddalwedd rheoli risg ac offer perthnasol eraill
18. sut i greu cofrestr risg a'i defnyddio
19. pam mae'n bwysig adolygu perfformiad y gofrestr risg a'i hadolygu'n rheolaidd

Asesu, dadansoddi a gwerthuso risgiau

SAFONAU GALWEDIGAETHOL CENEDLAETHOL

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Instructus |
| **Fersiwn rhif** | 1 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 01 Chwef 2024 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 01 Chwef 2029 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Instructus |
| **RCU gwreiddiol** | CFARMA004 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Ymgynghorwyr rheoli a dadansoddwyr busnes, Gweithwyr proffesiynol cyswllt a busnes n.e.c |
| **Cyfres/Set** | Rheoli Risg |
| **Geiriau Allweddol** | Strategaeth rheoli risg; strategaeth sefydliadol; cynllun busnes; parodrwydd i dderbyn risg; agwedd at risg; ffactorau risg; diwylliant risg; amcanion rheoli risg |